

# CYMDEITHAS YMWELWYR ANNIBYNNOL Â DALFEYDD

## CRYNODEB O ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020/21

# NEGES O'R GADAIR



**Mae 2020/21 wedi bod yn flwyddyn eithriadol. Mae COVID19 wedi newid pob elfen o'n bywydau ac mae'r DU wedi dioddef llawer o farwolaethau. Yn ystod yr amser hwn, roedd monitro dalfeydd yr heddlu mewn perygl. Efallai fod y cyfyngiadau symud a'r ffaith mai bach iawn oedd y gofod mewn dalfeydd wedi golygu bod gwaith monitro annibynnol wedi'i oedi. Fodd bynnag, llwyddodd arweinyddiaeth, cefnogaeth ac ymroddiad ein rhanddeiliaid a'n cynlluniau i sicrhau bod y gwaith monitro annibynnol yn parhau.**

Rwy'n ymfalchio'n fawr yn y gwaith a wnaed gan y cynlluniau drwy gydol y pandemig ac mae'n gwneud i mi deimlo'n ostyngedig. Ni lwyddodd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd i osgoi trasiedïau COVID19. Gwyddom fod staff a gwirfoddolwyr y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA) ac o fewn y cynlluniau wedi dioddef, wedi bod yn sâl ac wedi colli anwyliaid. Bu'n rhaid i gynlluniau ymateb i newid mawr dros nos a chanfu llawer o reolwyr cynlluniau eu bod yn gorfod ymdopi ag addysgu plant gartref, gwarchod eu hunain a hunan-ynysu. Yn yr amgylchedd hynod heriol hwn, roedd cynlluniau'n parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod dalfeydd yn cael eu monitro. Mae'r ymroddiad hwn i hawliau dynol ac i amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed yn rhywbeth rwy'n ei edmygu'n fawr. Dylai ymwelwyr annibynnol â dalfeydd fod yn haeddiannol falch ein bod wedi parhau â'n gwaith drwy gydol argyfwng cenedlaethol.

Llwyddodd yr ymwelwyr annibynnol i dynnu sylw at heriau allweddol. Tynnwyd sylw at y cynnydd mewn gwrandawiadau remand rhithwir a gynhaliwyd yn nalfeydd yr heddlu, mynediad at gyfreithwyr, hylendid a heriau'n ymwneud â staffio. Llwyddodd ICVA i rannu'r heriau hyn ymhellach gyda sefydliadau cenedlaethol, gan godi pryderon yn gynnar er mwyn eu datrys.

Yn ystod haf 2020 llofruddiwyd George Floyd yn America, gan sbarduno protestiadau ledled y byd a oedd yn cwestiynu cyfreithlondeb plismona ac effaith rhagfarn a hiliaeth mewn plismona. Mae ICVA wedi ymateb i'r pryderon hyn drwy weithio gyda'r Gynghrair Cyfiawnder Troseddol i ymchwilio i waith monitro hil a rhywedd yn nalfeydd yr heddlu, ac edrychaf ymlaen at yr adroddiad a fydd yn cael ei gynhyrchu y flwyddyn nesaf. Cynhaliodd ICVA ei digwyddiad mwyaf erioed i wirfoddolwyr, gan gomisiynu dwy weminar ar wrth-hiliaeth a chynghreiriaeth.

Gan edrych ymlaen at 2020/21, bydd ICVA yn wynebu cyfnod o newid wrth i Katie Kempen, Prif Weithredwr ICVA, adael y sefydliad ym mis Mehefin. Byddaf yn parhau'n Gadeirydd ar ICVA tan ddiwedd y flwyddyn galendr er mwyn sicrhau bod yr awenau'n cael eu trosglwyddo'n ddi-drafferth wrth i ni recriwtio olynydd.

Mae Katie a minnau wedi gweithio fel tîm, gan arwain ICVA ers ymron i chwe blynedd ac yn ystod y cyfnod hwnnw rydym wedi ailwampio cynnig aelodaeth ICVA, wedi darparu adnoddau newydd a chyffrous ar gyfer cynlluniau, wedi newid deddfwriaeth i ddiogelu urddas y rhai sy'n cael eu cadw yn y ddalfa ac wedi goruchwylio gwaith monitro drwy gydol y pandemig. Mae arwain ICVA wedi bod yn anrhydedd fawr a dim ond oherwydd ymrwymiad ac effeithiolrwydd cynlluniau a gwirfoddolwyr y bu hynny'n bosibl. Mae rheolwyr a gwirfoddolwyr cynlluniau ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn bobl wirioneddol eithriadol ac rydym wedi bod yn ffodus i weithio i'ch cynrychioli chi.

Martyn Underhill
Cadeirydd, Gorffennaf 2020

# Y DULLIAU

## GWASANAETH YMWELD DROS Y FFÔN

Roedd ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa yn gallu siarad â charcharorion yn uniongyrchol ar ffonau symudol neu drwy intercoms y celloedd.

## YMWELIADAU DRWY FIDEO

Roedd rhai cynlluniau'n gallu defnyddio technoleg fideo i weld a siarad â charcharorion yn eu celloedd.

## ADOLYGU COFNODION Y DDALFA

Mabwysiadodd llawer o gynlluniau system adolygu cofnodion y ddalfa yn ôl-weithredol, gan edrych yn fanwl ar y cofnodion hynny.

## YMWELIADAU PERSONOL

Parhaodd rhai o wirfoddolwyr y cynlluniau i ymweld â dalfeydd drwy gydol y pandemig.

## GALWADAU MONITRO

Fe wnaeth ymwelwyr annibynnol â dalfeydd a chynlluniau alwadau i ddalfeydd i siarad â staff a chlywed eu barn hwy ar ddalfeydd.


**Defnyddiodd llawer o gynlluniau gyfuniad o ddulliau er mwyn sicrhau'r gwasanaeth monitro gorau posibl.**


# CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL ICVA

Mae ICVA wedi bod yn falch o rannu cyflawniadau â chynlluniau ledled y DU. Er bod ICVA yn arwain, yn cefnogi ac yn cynrychioli cynlluniau, ni fyddai ein gwaith yn bosibl heb ein haelodau gwych.

Llwyddodd ICVA i ymateb yn gyflym i'r pandemig i gefnogi ei aelodau, gan ennill statws gweithiwr allweddol i ymwelwyr annibynnol yn y ddalfa, rhoi sesiynau cymorth ar waith ar gyfer cynlluniau a darparu arweiniad ac adnoddau cenedlaethol i gynorthwyo gyda monitro o bell.

Llwyddodd ICVA i barhau â llawer o'i gynigion aelodaeth 'arferol'. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau briffio, adnoddau hyfforddi ymwelwyr annibynnol â dalfeydd a chynhadledd rheolwr ar-lein i reolwyr cynlluniau ar y thema flynyddol 'Plant a Phobl Ifanc yn y Ddalfa'.




Cyflwynodd ICVA wefan newydd i'w haelodau. Mae gan y wefan newydd i aelodau nodweddion llawer gwell, fforwm i gymheiriaid a llyfrgelloedd dogfennau ar gyfer cynlluniau ac ICVA i gefnogi'r aelodau.

Cynhaliodd ICVA ddau ddigwyddiad ar gyfer cynlluniau ac ymwelwyr annibynnol ar-lein yn ystod y cyfnod hwn. Roedd un digwyddiad ar y cyd â Dr Roxanna Dehaghani a Phrifysgol Caerdydd yn canolbwyntio ar y Cam Diogelu Oedolion Priodol. Y digwyddiad arall, a oedd yn cynrychioli digwyddiadau mwyaf ICVA, oedd dau weminar a oedd yn canolbwyntio ar wrth-hiliaeth a chynghreiriaeth.



**Mae ICVA yn rhoi adroddiadau monitro wythnosol ar waith ar gyfer cynlluniau. Defnyddiwyd yr ymatebion hyn gan y Swyddfa Gartref, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a phartneriaid eraill i lunio ymatebion polisi ar gyfer dalfeydd yr heddlu. Roedd hyn yn cynnwys adroddiadau o lefelau PPE, materion diogelu ac yn fwy diweddar materion yn ymwneud â chydsyniad ar sail gwybodaeth.**

# YR UKNPM

**Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU (UKNPM)**
Mae ICVA yn aelod o'r UKNPM. Sefydlwyd UKNPM ym mis Mawrth 2009 ar ôl i'r DU gadarnhau'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol arall (OPCAT) ym mis Rhagfyr 2003. Mae'n cynnwys 21 o gyrff statudol sy'n monitro mannau cadw yn annibynnol, ac mae'r rhai sy'n ymwneud â dalfeydd yr heddlu yn cynnwys:

- ICVA
- Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yr Alban
- Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn yr Alban
- Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
- Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar gyfer yr Alban
- Adolygydd Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth

Sefydlwyd yr NPM i sicrhau ymweliadau rheolaidd â mannau cadw er mwyn atal artaith a chamdriniaeth arall, fel sy'n ofynnol gan OPCAT. Mae OPCAT yn cydnabod bod pobl sy'n cael eu cadw yn arbennig o agored i niwed ac yn ei gwneud yn ofynnol i wladwriaethau sefydlu corff ar lefel genedlaethol a all gefnogi ymdrechion i atal camdriniaeth ohonynt. Rhaid bod gan yr NPM y pwerau i wneud y canlynol o leiaf:

- Archwilio'n rheolaidd sut y caiff pobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid eu trin ym mhob man cadw sydd dan awdurdodaeth a rheolaeth y DU;
- Gwneud argymhellion i awdurdodau perthnasol gyda'r nod o wella triniaeth ac amodau unigolion sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid
- Cyflwyno cynigion ac arsylwadau ar ddeddfwriaeth bresennol neu ddeddfwriaeth ddrafft.

Bu 2020/21 yn flwyddyn brysur i UKNPM. Ymatebodd yr aelodau i COVID19 drwy addasu neu ohirio'r gwaith o fonitro canolfannau cadw. Ymwelodd Is-bwyllgor Atal Artaith y Cenhedloedd Unedig â'r DU yn 2019 a chyhoeddodd adroddiad yn 2020. Ymatebodd yr aelodau i'r Papur Gwyn ar y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Cadeiriodd ICVA is-grŵp UKNPM ar gyfer plismona, gan sicrhau bod pob aelod sy'n ymweld â dalfeydd yr heddlu yn rhannu arferion gorau ac yn cydweithio i sicrhau bod dalfeydd yr heddlu yn effeithlon ac yn effeithiol.

https://www.nationalpreventivemechanism.org.uk/

# EFFAITH YMWELWYR ANNIBYNNOL Â DALFEYDD YN YSTOD Y PANDEMIG

## TREFNIADAU DIOGELU

Nododd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd oedi o ran mesurau diogelwch yn gynnar yn ystod y pandemig. Fe wnaeth y sefyllfa wella'n gyflym gydag Oedolion Priodol yn parhau i fynychu'n bersonol. Lleihaodd yr oedi wrth i'r pandemig fynd yn ei flaen.

## CYFARPAR DIOGELU PERSONOL

Pan welodd yr ymwelwyr annibynnol bryderon ynghylch argaeledd cyfarpar diogelu personol yn ystod dyddiau cynnar y pandemig, fe wnaethant fwydo'r wybodaeth hon yn ◄l. Gwelwyd gwelliant sylweddol yn y sefyllfa mewn dalfeydd o ran cyfarpar diogelu personol gydag adroddiadau o arfer da bellach yn gyffredin.

## AMODAU

Os oedd gofal rhywun a gadwyd yn y ddalfa yn cael ei effeithio oherwydd bod staff yn treulio amser ar wrandawiadau remand rhithwir a oedd yn cael eu cynnal yn nalfa'r heddlu, fe wnaeth yr ymwelwyr annibynnol fwydo'r wybodaeth hon yn ôl. Mae bron pob heddlu bellach wedi rhoi'r gorau i'r trefniant hwn. Yn gyffredinol, mae ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa yn nodi bod gofal carcharorion wedi bod yn dda drwy gydol y flwyddyn er gwaethaf y pwysau o ran staffio.

## TREFNIADAU DIOGELU

Adroddodd yr ymwelwyr annibynnol bryderon ynghylch mynediad y rhai a gedwir yn y ddalfa at gyngor cyfreithiol, gan nodi'n benodol faterion yn ymwneud â'r rhai a gedwir yn y ddalfa yn gallu rhoi caniatâd yn seiliedig ar wybodaeth i dderbyn cyngor cyfreithiol o bell. Arweiniodd hyn at waith cenedlaethol i wella'r cynnig a chofnodi caniatâd yn seiliedig ar wybodaeth.